

Gwirfoddolwyr Royal Caledonian Horticulture Society, Parc Saughton, Caeredin.

Mae'r Loteri Genedlaethol wedi buddsoddi mwy na £950miliwn mewn adfywio dros 900 o barciau cyhoeddus, gan helpu cymunedau a byd natur i ffynnu.

Yn ogystal â darparu gwerddonau gwyrdd mewn cymdogaethau trefol a chartref i fywyd gwyllt, mae parciau a mannau gwyrdd yn adnodd cyhoeddus hanfodol, sydd o fudd i fywydau, llesiant ac iechyd pobl.

Rydym am ariannu prosiectau sy'n cysylltu mwy o bobl â byd natur, a helpu i roi hwb i fioamrywiaeth ac adferiad byd natur.

Mae ein Rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar agor, yn darparu grantiau rhwng £10,000 a £10miliwn i gefnogi prosiectau treftadaeth ar draws y DU.

Gallai ein hariannu eich helpu i:

- adfer ac adfywio parc cyhoeddus, mynwent neu ardd hanesyddol sydd ar agor i'r cyhoedd
- gwella mynediad a dealltwriaeth o barc neu fan gwyrdd hanesyddol
- gwella cysylltiadau pobl â byd natur
- helpu gwireddu manteision mannau gwyrdd cyhoeddus sy'n cael eu rheoli a'u cynnal a chadw'n dda ar gyfer cymunedau, yr economi ac iechyd y cyhoedd
- gwella cynefinoedd a helpu byd natur i ymadfer

- adeiladu ymdeimlad o falchder mewn lle trwy adfywio mannau gwyrdd cymunedol

Pethau allweddol i'w darllen

- ein canllaw i brosiectau tirweddau a byd natur
- astudiaethau achos a gwersi a ddysgwyd o Future Parks Accelerator

Archwiliwch ein buddsoddiad

Dysgwch fwy am ein hymrwymiad i barciau trefol a mannau gwyrdd cyhoeddus yn y DU.

Expand All accordions

Trefi a Dinasoedd Natur

Nid oes gan filiynau o bobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol fynediad hanfodol at fyd natur a mannau gwyrdd. Bydd ein rhaglen bartneriaeth newydd, Trefi a Dinasoedd Natur yn mynd i'r afael â hyn drwy helpu awdurdodau lleol i gydweithio â chymunedau i ddod â byd natur i bob cymdogaeth er mwyn i bawb ei fwynhau. Ochr yn ochr ag adeiladu rhwydweithiau cryfion, rhannu arbenigedd ac achrediad, rydym wedi cyhoeddi £15m o ariannu ar gyfer parciau a mannau gwyrdd trefol.

Expand All accordions

Future Parks Accelerator

Cefnogodd Future Parks Accelerator (FPA) wyth awdurdod lleol i ddatblygu atebion uchelgeisiol a chynaliadwy i ddiogelu, gwella a gwneud mwy o ddefnydd o barciau cyhoeddus a mannau gwyrdd trefol.

Darganfod mwy am y rhaglen a hefyd awgrymiadau a chyngor ar reoli mannau gwyrdd mewn lleoedd trefol.

Ewch i wefan FPA am fwy fyth o adnoddau.

Expand All accordions

Rethinking Parks

Rhaglen £1miliwn ar y cyd gwerth rhwng Nesta, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Gymunedol, a lansiwyd yn 2013. Ei nod oedd ariannu a chefnogi arloeswyr parciau i ddatblygu, gweithredu a lledaenu dulliau newydd o gynnal a manteisio i'r eithaf ar barciau cyhoeddus yn y DU.

Mae dros 20 o brosiectau arloesi bellach wedi'u cyflwyno gan gefnogi rheolwyr parciau, grwpiau cymunedol ac elusennau eraill i ailfeddwl sut y gallai parciau trefol a mannau gwyrdd gael eu rheoli a'u hariannu yn y dyfodol.

Darllen casgliad o ysgrifau am Rethinking Parks, a gynhyrchwyd gan Nesta ar ôl diwedd y rhaglen ym mis Hydref 2020. Gallwch hefyd ddarganfod cyfres o ddiweddariadau prosiect craff a phecyn cymorth a grëwyd gan Nesta, sy'n cofnodi profiadau dysgu'r prosiectau a fu'n ymwneud â'r rhaglen.

Expand All accordions

Lle i Ffynnu

Mae'r adroddiad Lle i Ffynnu, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, yn adolygiad cyflym o dystiolaeth o'r buddion y mae parciau a mannau gwyrdd yn eu cynnig i bobl a chymunedau.

Dyma ei argymhellion allweddol:

- Dylid ystyried parciau fel seilwaith cymdeithasol yn ogystal â ffisegol.
- Dylid rheoli parciau a mannau gwyrdd i gefnogi iechyd a lles.
- Dylid rheoli parciau a mannau gwyrdd i annog cysylltiadau â byd natur.

Dyma Paul Farmer, Prif Weithredwr yr elusen iechyd meddwl Mind, yn myfyrio ar sut y gall mannau gwyrdd wella lles ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi.



efyd mewn ...

Parc Pearson yn Kingston upon Hull.



refi a'n dinasoedd

Parks for Health project in Camden and Islington in tip four. Credit: Islington Council



yn eich ardal chi

© BCP Council/ Mark Holloway

How our pioneering programme showed what a vital public resource parks are